**Beirniadaeth Cystadleuaeth 346**

**Barddoniaeth dan 25 oed - Cerdd rydd / benrydd: Cadwyni**

**Beirniad: Marged Tudur**

Profiad digon dryslyd oedd beirniadu'r gystadleuaeth hon a hynny oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cynigion yn dwyn teitl gwahanol i 'Cadwyni', er enghraifft, 'Gwên ddel', 'Dathlu Cymru', 'Pam? Dee-Why?'. Yn sicr, fe ddylid manteisio ar gystadlaethau fel hyn er mwyn cyflwyno gwaith a grëwyd at ddibenion eraill, ond rhaid sicrhau bod y cerddi'n destunol ac fe ddylid nodi'r testun a ofynnwyd amdano fel teitl.

Dyma ymateb i bob cerdd yn y drefn y derbyniais nhw.

*Aberstalwm*: Ceir agoriad sy'n hoelio sylw gan *Aberstalwm*: 'Ganddo ef geshi hon, / A hon, / A hon'. Er y dechrau addawol, teimlais bod y bardd yn colli stêm wrth i'r gerdd fynd rhagddi ac fe aeth y mynegiant yn fwy rhyddieithol. O docio a chwynnu, byddai'r gerdd hon yn codi i dir uwch.

*Briallen*: Disgrifio rhywun dienw, sydd o bosib yn byw gyda dementia, y mae *Briallen* a hoffais y modd yr oedd y bardd yn canolbwyntio ar un ddelwedd. Er hynny, byddwn wedi hoffi gweld mwy o awgrymu a mwy o sŵm lens ar fanylion arwyddocaol.

*Celyn werdd*: Iaith yw'r 'cadwyni' gan *Celyn werdd.* Mae'n ymateb gwreiddiol i'r testun, ac roedd y delweddau yn effeithiol, fel: 'mae ein tafodau wedi'u dal mewn cadwyni'. Roeddwn yn y niwl gydag ambell linell a da fyddai cael mwy o eglurder.

*Dafodil Pinc*: Rwy'n tybio bod y gerdd hon wedi cael ei hanfon i'r gystadleuaeth anghywir.

*Dras y Dafydfa*: Nid wyf yn sicr ai i'r gystadleuaeth hon y bwriadwyd y gwaith hwn ar y testun 'Diwedd cynhaeaf'. Cafwyd dilyniant o bedair cerdd, a phob un yn trafod un o'r tymhorau. Roedd yma linellau gwych fel: 'y bryn yn gwisgo'n borffor' a 'chwiban y gwynt drwy'r gwydr'. Mae'n biti bod nifer o wallau yma ac na gymerwyd mwy o ofal.

*Eithin*: Eto, rwy'n ansicr ai i'r gystadleuaeth hon y bwriadwyd y gerdd hon. O ystyried hyd y gerdd, mae'n fwy addas i gystadleuaeth y Gadair. Ceir cyffyrddiadau da iawn ond mae lle i dynhau'r dweud. Teimlais hefyd y byddai'r gerdd wedi bod ar ei hennill o ddefnyddio 'ti' yn hytrach na 'chi'.

*Lodes*: Egyr y gerdd gyda llinell sy'n eich taro ar eich talcen: 'Twll o le yw Abertawe'. Drwy'r gerdd, mae yma fesur a phwyso wrth i'r bardd ymryson ag ef ei hun am ei deimladau tuag at bro ei febyd. Er hynny, mae angen mwy o gynildeb. Gellid awgrymu hyn heb ei ddweud: 'Ond bob tro rwy'n sefyll ar y bryn uchaf / ac yn edrych dros y ddinas, llawn bwrlwm / rwy'n teimlo rhywbeth yn pwyso arnaf. / Nid dyma'r amser cywir i ddianc o'r dwll o le yma, Ond rhyw ddydd byddaf yn rhydd.'

*Seren*: Molawd o gerdd i unigolyn sy'n cynnig noddfa rhag 'cadwyni' bywyd a geir gan *Seren*. Dylai'r bardd fod yn fwy hyderus o'i allu i ganu ar y testun – nid oedd angen defnyddio'r gair 'cadwyni' chwe gwaith yn ystod y gerdd.

*Y wawr*: Ceir is-deitl i'r gerdd hon sef 'ar ôl damwain syrffio yn Awstralia'. Mae yma linellau hyfryd fel: 'Haul yn gwawrio yng ngorwel fy meddwl.' Er hynny, teimlais bod yr ystyr yn cael ei amddifadu er mwyn bodloni'r odl ambell waith.

*Ysgawen*: Disgrifio cadwyni go iawn y mae *Ysgawen*. Mae'r bardd yn gwybod sut i drin geiriau ac mae ganddo glust sydd wedi tiwnio i rythm, sŵn a seibiadau. Ceir disgrifiadau synhwyrus hyfryd fel: 'O dan groen awyr oer'. Er hynny, mae tuedd i gymysgu delweddau a da fyddai gweld mwy o dynhau a chwtogi.

*Ythan*: Mae *Ythan* yn fardd sicr iawn ei grefft ac mae'n gwybod sut i saernïo'r ofalus ac i gyfleu trwy ddelweddau trawiadol. Bwrw ei lach ar y brifddinas a'r rhai hynny sydd mewn 'pŵer yn gwisgo esgidiau sgleiniog' a wna. Sonnir bod y ddinas yn le sydd 'wedi'i [h]adeiladu ar wrthddywediadau' ac yn wir, mae'r elfen ddeuol hon i'w gweld drwy'r gerdd, fel yn y llinellau ffilmig hyn: 'Mae twristiaid yn tynnu lluniau / o ddrws ffrynt democratiaeth / tra bod democratiaeth ei hun yn llithro allan trwy'r cefn / am fwgyn bach slei.' Rwy'n mawr obeithio y caiff y gerdd hon ei pherfformio ar lafar, o flaen cynulleidfa – mae'n gerdd sy'n gofyn am wrandawiad o'r fath. Mae'n biti mai 'Prifddinas', ac nid 'Cadwyni' yw teitl y gerdd. Ydw i'n maddau? Yn sicr, mae'r gerdd yn canu ar y testun ac yn fwy na hynny, mae'n gerdd bwerus. Oherwydd hynny, dyma eu gosod fel hyn:

1. Ythan
2. Ysgawen
3. Lodes

Llongyfarchiadau i'r tri bardd a ddaeth i'r brig.